

Dyddiadau tymor ysgol

2017/18



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru



Ymgynghoriad ar gyfer pobl ifanc

Cyflwyniad

Mae teuluoedd weithiau'n ei chael hi'n anodd pan mae dyddiadau tymor ysgol a gwyliau ar wahanol amseroedd.

Mae dyddiadau tymor yn gallu bod yn wahanol mewn gwahanol rannau o Gymru, ac weithiau hyd yn oed mewn ysgolion yn yr un ardal leol.

Felly, yn 2014 fe newidiodd Llywodraeth Cymru'r gyfraith i helpu teuluoedd.

Nawr mae'r bobl sy'n gosod dyddiadau tymor i ysgolion yn gorfod cydweithio i gytuno ar yr un dyddiadau tymor a gwyliau. Os nad ydyn nhw'n cytuno, mae gan Weinidogion Cymru'r grym i gamu i mewn a gosod dyddiadau tymor i bawb.

Rydyn ni nawr wedi casglu ynghyd yr holl wybodaeth rydyn ni wedi'i derbyn ynglŷn â dyddiadau ar gyfer blwyddyn ysgol 2017/18 ac rydyn ni wedi gweld bod yna lawer o wahaniaethau o hyd.

Mae'r ddogfen yma'n dweud wrthy'ch chi am y dyddiadau rydyn ni eisiau eu gosod i bob ysgol ar gyfer 2017/18.

Cyn i ni gadarnhau'r dyddiadau hyn, rydyn ni eisiau gwybod beth yw'ch barn chi.



Dyma ichi'r teulu Jones!

Mae gan Mr a Mrs Jones dri o blant. Mae Joanne yn 13 oed, mae Iwan yn wyth oed ac mae Megan yn bedair oed.

Mae Joanne yn mynd i'r ysgol uwchradd Gatholig leol. Mae ei gwyliau hi'n wahanol i wyliau Euan a Megan.

Os yw Mr Jones yn addysgu Saesneg mewn ysgol uwchradd mewn ardal wahanol, fe allai ei wyliau ef fod yn wahanol hefyd.

Mae hyn yn gallu ei gwneud hi'n anodd iawn trefnu gofal plant neu gynllunio gwyliau.



Sut oedd y dyddiadau'n wahanol?

Gwnaeth pob awdurdod lleol ar draws Cymru lwyddo i gydweithio a gosod dyddiadau tymor.

Gwelsom fod dyddiadau ysgolion y mae'r mwyafrif o awdurdodau lleol yng ngogledd Cymru yn eu rhedeg yr un fath â'i gilydd.

Roedd dyddiadau de Cymru yr un fath â'i gilydd.

Ond roedd yna rai gwahaniaethau rhwng dyddiadau gogledd Cymru a de Cymru.

Roedd rhai ysgolion sy'n cael eu rhedeg gan awdurdodau lleol yng nghanolbarth a gorllewin Cymru yr un peth a'r rhai yng Ngogledd Cymru ac roedd rhai yr un peth a de Cymru.

Mae yna 168 o ysgolion nad yw awdurdodau lleol yn gosod eu dyddiadau tymor.

Yr Eglwys Gatholig, yr Eglwys yng Nghymru neu gymunedau sy'n rhedeg y rhain. 107 o'r ysgolion yma wnaeth anfon eu dyddiadau tymor atom ni.

Roedd i gyd ohonyn nhw yr un fath â dyddiadau ysgolion awdurdodau lleol.

Gwnaeth pob ysgol y mae awdurdodau lleol yn eu rhedeg ar draws Cymru dewis yr un hanner tymor yn yr Hydref 2017 i ddechrau ar 30 Hydref ac yr un gwyliau y Nadolig yn dechrau ar 25 Rhagfyr a hanner tymor yr haf 2018 yn dechrau ar 28 Mai.

Mae dyddiadau tymor am rhai gwyliau'r ysgol yn gwahanol, y rhain yw diwrnod cyntaf y flwyddyn ysgol yn 2017 sy'n 1 Medi ar gyfer rhai a 4 Medi ar gyfer rhai eraill. Mae hanner tymor y Gwanwyn 2018 yn dechrau ar 12 Chwefror ar gyfer rhai a 19 Chwefror ar gyfer rhai eraill.

Mae rhai wedi dewis gwyliau y Pasg 2018 i ddechrau ar 26 Mawrth a rhai eraill ar 30 Mawrth.



Y dyddiadau rydyn ni eisiau eu gosod

Dyma'r dyddiadau rydyn ni'n bwriadu eu gosod i bob ysgol yng Nghymru ar gyfer blwyddyn ysgol 2017/18.

Diwrnod cyntaf y flwyddyn ysgol

Dydd Llun 4 Medi 2017

Hanner tymor yr hydref

Dydd Llun 30 Hydref – dydd Gwener 3 Tachwedd

Gwyliau'r Nadolig

Dydd Llun 25 Rhagfyr – dydd Gwener 5 Ionawr

Hanner tymor y gwanwyn

Dydd Llun 19 Chwefror – dydd Gwener 23 Chwefror

Gwyliau'r Pasg

Dydd Gwener 30 Mawrth – dydd Gwener 13 Ebrill
(h.y. diwrnod olaf yn yr ysgol ddydd Iau 29 Mawrth)

Hanner tymor yr haf

Dydd Llun 28 Mai – dydd Gwener 1 Mehefin

Diwrnod olaf yn yr ysgol

Dydd Mawrth 24 Gorffennaf 2018

Diolch am ddarllen hwn

A fydddech chi cystal ag ateb y cwestiynau ac anfon eich atebion i:

SMED2@cymru.gsi.gov.uk

neu

Y Gangen Llywodraethu a Threfniadaeth Ysgolion
Y Gyfarwyddiaeth Safonau a Gweithlu Ysgolion
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

erbyn 1 Chwefror 2016.



Cwestiynau

Eich enw? (dewisol)

Eich oedran? (dewisol)

Pa ran o Gymru ydych chi'n byw ynddi? (dewisol)

Ydych chi'n meddwl bod y dyddiadau yma'n syniad da?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

Sylw

Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr ein bod ni'n ystyried sut mae gosod y dyddiadau yma'n effeithio ar bobl ag anableddau, pobl o wahanol grefyddau, neu bobl â materion eraill sy'n ymwneud â chydrraddoldeb.

Ydych chi'n meddwl bod yna unrhyw beth rydyn ni wedi'i fethu?

Sylw

